

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Ebrill 2014 i'w hateb ar 7 Mai 2014

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 1. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yng Nghwmbrân? OAQ(4)0435(HSS)
- 2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect yr ysbyty newydd yng ngogledd sir Ddinbych? OAQ(4)0425(HSS)
- 3. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynghreiriau gofal fel rhan o Raglen De Cymru? OAQ(4)0438(HSS)W
- 4. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â mynediad i Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)0426(HSS)
- 5. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0424(HSS)
- 6. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd targed triniaeth gofal cancer yng Nghymru? OAQ(4)0432(HSS)
- 7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adnoddau ambiwlans yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0428(HSS)W
- 8. Christine Chapman (Cwm Cyron):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyfradd beichiogrwydd yn yr ardegau yng Nghymru? OAQ(4)0431(HSS)
- 9. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y gwnaiff y Gweinidog eu cymryd i wella gwasanaethau i gleifion cancer yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0423(HSS)

10. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o argymhellion Adroddiad Nuffield ar gasglu data yng Nghymru? OAQ(4)0436(HSS)

11. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau dialysis yng Nghymru? OAQ(4)0433(HSS)

12. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd triniaeth canser yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0422(HSS)

13. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella triniaeth i bobl â salwch anadlol? OAQ(4)0430(HSS)

14. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y Cynllun Iechyd Gwledig? OAQ(4)0437(HSS)

15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): Faint o geisiadau am y cyffur canser y coluddyn Avastin sydd wedi eu cymeradwyo yn ardal Gogledd Cymru? OAQ(4)0429(HSS)

Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. Gwyn Price (Islwyn): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r effaith y mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi ei chael ar drechu tlodi yn Islwyn? OAQ(4)0173(CTP)

2. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffigurau tlodi gwledig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0170(CTP)

3. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch diogelu Swyddfeydd Post yng Nghymru? OAQ(4)0166(CTP)W

4. Andrew RT Davies: (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0165(CTP)

5. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy? OAQ(4)0164(CTP)W

6. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella cysylltiadau cymunedol yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf? OAQ(4)0160(CTP)

- 7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal plant mewn cymunedau gwledig? OAQ(4)0163(CTP)
- 8. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Ngorllewin Clwyd? OAQ(4)0161(CTP)
- 9. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran gweithredu Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0169(CTP)
- 10. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith y dreth ystafell wely ar yr unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru? OAQ(4)0171(CTP)W
- 11. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer cryfhau cydlyniant cymunedol yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0167(CTP)
- 12. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau Llywodraeth Cymru i gefnogi banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)0174(CTP)W
- 13. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y gwnaiff y Gweinidog eu cymryd i wella cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0159(CTP)
- 14. Sandy Mewies (Delyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo aelodaeth o undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)0168(CTP)
- 15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o reolaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate o'r contract allanol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol? OAQ(4)0172(CTP)